

## Amgueddfa Stori Caerdydd Ymweliadau Ysgolion

### **GWYBODAETH DIOGELWCH I HELPU YSGOLION I BARATOI AR GYFER YMWELIADAU AC ASESIAU RISG**



#### Cofiwch:

1. Mae ysgolion yn gyfrifol am wneud eu hasesiadau risg eu hunain.
2. Cyfrifoldeb athrawon ac arweinwyr grŵp yw goruchwyllo'r plant bob amser. Raid arwyddo'r ffurflen archebu lle i ddweud eu bod yn cytuno â hyn.

Nid yw'r wybodaeth diogelwch yr ydym yn ei darparu yn cymryd lle eich asesiad risg eich hun. Defnyddiwch y ddogfen hon i'ch helpu i gwblhau eich asesiad risg eich hun ar gyfer anghenion penodol eich grŵp ac yn unol â chanllawiau swyddogol a pholisïau ysgol/AALI.

Mae Stori Caerdydd yn derbyn ei gyfrifoldebau o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn llawn. Gweithredir Polisi Iechyd a Diogelwch ynghyd ag asesiadau risg ysgrifenedig mewn cysylltiad â'n dyletswyddau cyfreithiol yn ymwneud ag ymwelwyr yn dod ar ein safle ac yn defnyddio ein cyfleusterau. Rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod eich ymweliad yn brofiad addysgol diogel, hwyliog y byddwch yn ei fwynhau.

Argymhellwn fod gan bob athro/goruchwyliwr ar yr ymweliad gopi o'ch asesiad risg/y wybodaeth diogelwch berthnasol.



## **Cyfleusterau Lles a Map o'r Amgueddfa**

Mae map o'r amgueddfa ar gael sy'n cynnwys lleoliad cyfleusterau o fewn yr adeilad, gan gynnwys y tai bach. Gallwch lawrlwytho'r map hwnnw o'n gwefan.

Mae toiledau i ddynion, i ferched ac i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ar gael ar y llawr gwaelod ger yr ystafelloedd dysgu. Mae'r rhain ar agor i aelodau'r cyhoedd hefyd.

Yr ystafelloedd dysgu yw'r unig lefydd yn yr amgueddfa lle caniateir bwyd a diod. Os hoffai grwpiau ddefnyddio'r llefydd hyn ar gyfer egwyl neu ginio rhowch wybod i aelod o staff cyn eich ymweliad. Defnyddiwch y biniau sbwriel a ddarperir.

Pan fyddwch yn defnyddio ystafelloedd dysgu ar gyfer bwyta sicrhewch fod y plant yn golchi eu dwylo ar ôl cyffwrdd ag arddangosion.

## **Gadael yr Adeilad Mewn Argyfwng**

Mae gennym weithdrefnau ar gyfer gwacáu'r adeilad mewn argyfwng. Mae holl staff yr amgueddfa yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau hyn ac yn eu hymarfer yn fynych.

Bydd aelod o staff yn bresennol yn y ddwy brif oriel bob amser a byddant yn arwain y broses o wacáu'r adeilad os bydd angen gwneud hynny.

Ar glywed y larwm, caiff yr holl ymwelwyr eu cyfarwyddo i fynd i'r Man Ymgynnull penodedig y tu allan i fynedfa Neuadd Dewi Sant. Gadewch gotiau a bagiau yn yr ystafelloedd ac anogwch y plant i ymddwyn yn dawel ac i beidio â rhedeg na gwthio'r plant o'u blaenau. Dilynwch gyfarwyddiadau staff yr amgueddfa.

Ar gyrraedd y Man Ymgynnull, cyfrwch bob aelod o'ch grŵp a rhowch wybod i aelod o staff ar unwaith os bydd rhywun ar goll.

## **Cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr sydd ag Anghenion Arbennig**

Hoffem sicrhau bod ein holl ymwelwyr yn cael ymweliad hwyliog a chyfleus a byddem yn hapus i drafod a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion penodol cyn eich ymweliad.

Byddwn yn gweithio gydag athrawon i sicrhau bod trefniadau priodol wedi eu gwneud er mwyn sicrhau bod goruchwyliaeth a chymorth priodol ar gael i ddisgyblion sydd ag anghenion arbennig.

Gallwch weld copi o'n Polisi Mynediad ac Amrywiaeth ar gais. Cysylltwch â ni os bydd angen unrhyw wybodaeth neu drefniadau ychwanegol.

Mae Stori Caerdydd yn hollol hygyrch ac mae'r canlynol gennym:

- Ramp i gael mynediad i'r adeilad o ochr Stryd Working.
- Lifftau i bob llawr
- Toiledau i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn
- Mynediad i gadeiriau olwyn i bob rhan gyhoeddus yn yr amgueddfa
- Dolenni clyw ar bob cyfarpar sain
- Isdeitlau yn Gymraeg a Saesneg ar bob ffilm
- Trawsgrifiadau o bob deunydd sain
- Labeli gyda phrint bras
- Mapiau cyffwrdd o'r amgueddfa
- Arwyddion Braille a llythrennau cyffwrdd

## **Cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr sydd ag Anghenion Meddygol**

Hoffem sicrhau bod ein holl ymwelwyr yn cael ymweliad hwyliog a chyfleus a byddem yn hapus i drafod a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion penodol cyn eich ymweliad.

### **Cymorth Cyntaf**

Os bydd angen cymorth cyntaf, cysylltwch â'r aelod agosaf o staff a fydd yn cysylltu â'r swyddog cymorth cyntaf ar unwaith.

### **Cŵn Cymorth**

Mae croeso i gŵn cymorth ddod i'r amgueddfa gydag ymwelwyr sydd â nam ar eu clyw neu eu golwg. Mae dŵr yfed ar gael ar gais gan aelod o staff. Mae'n rhaid i gŵn adael yr adeilad i fynd i'r tŷ bach a bydd staff wrth law i roi gwybod am le priodol.

### **Systemau Cyfathrebu**

Mae gan bob aelod o staff yr amgueddfa gymhorthion cyfathrebu a byddant yn fwy na pharod i helpu gydag unrhyw ymholiadau.

### **Gwiriadau Swyddfa Cofnodion Troseddol**

Mae holl staff yr amgueddfa sydd â mynediad rheolaidd a/neu fynediad heb oruchwyliaeth at blant neu oedolion sy'n agored i niwed yn destun gwiriad manylach y swyddfa gofnodion troseddol. Disgwylir i athrawon fod gyda'r grwpiau bob amser.

### **Peryglon Dringo / Baglu**

Mae rhai arddangosion wedi eu bwriadu i blant gael dringo arnynt. Peidiwch â gadael i blant ddringo ar arddangosion eraill yr amgueddfa gan fod hyn yn beryglus.

Athrawon sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob disgybl yn cerdded i mewn i, ac o gwmpas, yr amgueddfa mewn ffordd barchus.

### **Pobl Ar Goll**

Dwedwch wrth y plant y dylen nhw roi gwybod i aelod o staff os byddan nhw wedi cael eu gwahanu o'u grŵp.

Os bod arweinydd grŵp yn gweld bod aelod o'i grŵp ar goll, dylai ddweud wrth aelod o staff yr amgueddfa a fydd yn gwneud ei orau i ddod o hyd i'r person sydd ar goll.

### **Ymddygiad Ymwelwyr**

Disgwylir i athrawon a phlant gydymffurfio â'r canlynol:

- Peidio â mynd i ardaloedd sydd ar gau i'r cyhoedd
- Ymddwyn mewn ffordd barchus a threfnus
- Peidio â dringo ar arddangosion heblaw am y rheiny sy'n amlwg at y diben hwnnw
- Bod yn gwrtais i aelodau o staff ac ymwelwyr eraill
- Bod yn ystyriol o anghenion ymwelwyr eraill
- Rhaid i athrawon oruchwyllo plant bob amser
- Dylid bwyta ac yfed yn yr ystafelloedd dysgu yn unig. Ni chaniateir bwyd a diod yn ardal y brif oriel.
- Ni chaniateir ysmegu yn adeilad yr amgueddfa, nac yn ei mynedfeydd.
- Dim tynnu lluniau gyda fflach. (Caniateir tynnu lluniau heb fflach)
- Dylid defnyddio'r biniau a ddarperir ar gyfer unrhyw sbwriel



**Archwiliadau o'r Safle**

Mae staff yr amgueddfa yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r cyfleusterau. Archwilir yr holl gyfarpar yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn.

**Adnabod Staff yr Amgueddfa**

Mae ein holl Staff 'Blaen y Tŷ' yn gwisgo crysau glas neu binc gyda logo Stori Caerdydd.

**Yswiriant**

Mae gan yr amgueddfa Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus.